




WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Adroddiad Gwella Blynyddol

Cyngor Sir Ceredigion

Cyhoeddwyd: Mai 2013
Cyfeirnod y ddogfen: 192A2013



Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o bron i £5.5 biliwn a drosglwyddir gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Colin Davies a Jeremy Evans o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

Cynnwys

Adroddiad cryno ac argymhellion	4
Adroddiad manwl	
Cyflwyniad	7
Mae'r Cyngor yn datblygu trefniadau newydd ar gyfer rheoli ei raglen wella, ond mae'r canlyniadau a ddisgwylir yn aneglur, ac mae hyn yn codi pryderon ynghylch gallu'r Cyngor i wella a darparu gwerthusiad clir o effaith ei gamau gweithredu ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau	8
Oherwydd diffyg perchnogaeth strategol a ffocws mae cynnydd y Cyngor o ran cyflawni gwelliannau yn ei feysydd blaenoriaeth yn newidiol	8
Cynghorwyr sy'n llywio dull hunanwerthuso a rheoli perfformiad y Cyngor, ond ni chaiff hyn ei adlewyrchu yn ei hunanasesiad blynyddol hyd yma	12
Mae angen i'r Cyngor gryfhau ei gynlluniau gwella a'i drefniadau i gefnogi gwelliannau os ydynt am alluogi'r Cyngor i sicrhau gwelliannau parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod	14
Atodiadau	
Atodiad 1 Statws yr adroddiad hwn	19
Atodiad 2 Gwybodaeth ddefnyddiol am Geredigion a Chyngor Sir Ceredigion	20
Atodiad 3 Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig	22
Atodiad 4 Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ceredigion	24

Adroddiad cryno

- 1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r ffordd y mae Cyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13.
 - mae'r Cyngor wedi parhau i ganolbwyntio'n gryf ar leihau gwastraff, ac mae hyn wedi'i alluogi i gyrraedd targedau cenedlaethol;
 - mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau i'w wasanaeth addysg;
 - mae cymorth y Cyngor i bobl ddi-amddiffyn wedi gwella gyda rhai enghreifftiau o arferion da, ond gallai nifer o risgiau allweddol lesteirio cynnydd.
- 2 Yn gyffredinol mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor yn datblygu trefniadau newydd ar gyfer rheoli ai raglen wella, ond mae'r canlyniadau disgwylidig yn aneglur, gan godi pryderon ynghylch gallu'r Cyngor i sicrhau gwelliannau a darparu gwerthusiad clir o effaith ei gamau gweithredu ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau.
- 3 Oherwydd diffyg perchnogaeth strategol a ffocws mae cynnydd y Cyngor o ran cyflawni gwelliannau yn ei feysydd blaenoriaeth yn newidiol:
 - mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd gyda'i Raglen Trawsnewid eleni yn sgil creu strwythur uwch reoli newydd ond erys y cynnydd cyffredinol yn newidiol ac yn araf ac mae'r effaith ddisgwylidig yn aneglur;
 - ni leihaodd y Cyngor ei allyriadau Carbon Deuocsid (CO₂) o'i adeiladau cyhoeddus annomestig ond mae wedi cwblhau cyfran sylweddol o *Gynllun Diogelu'r Arfordir y Borth i Ynyslas*;
- 4 Nodwyd y canlynol gennym hefyd: cynghorwyr sy'n llywio dull hunanwerthuso a rheoli perfformiad y Cyngor, ond ni chaiff hyn ei adlewyrchu yn ei hunanasesiad blynyddol hyd yma.
- 5 Yn olaf, mae'r adroddiad hwn yn nodi ein barn ynghylch pa mor dda y mae'r Cyngor yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn gwneud trefniadau i gefnogi hynny. Daethom i'r casgliad canlynol: mae angen cryfhau cynlluniau gwella'r Cyngor a'i drefniadau i gefnogi gwelliannau os ydynt am alluogi'r Cyngor i sicrhau gwelliannau parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Yn benodol:
 - nid yw cynlluniau'r Cyngor yn mynegi blaenoriaethau'r Cyngor a'u heffaith ar ddinasyddion yn ddigon clir;
 - mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd newidiol o ran mynd i'r afael â'r cynigion i wella a nodwyd yn ein hasesiadau blaenorol;
 - mae gan y Cyngor gynlluniau ariannol cadarn sy'n gysylltiedig â'i amcanion strategol a'i amcanion gwella;

- er bod y Cyngor wedi cael ei ganmol am ei waith yn cefnogi'r Gymraeg yn ei gartrefi gofal, at ei gilydd nid yw wedi llwyddo i gyrraedd mwyafrif y targedau a bennodd yn ei *Gynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg*.

Argymhellion

- 6 Nid wyf yn gwneud unrhyw argymhellion newydd eleni, er fy mod wedi gwneud chwe chynnig ar gyfer gwella, sydd i'w gweld yn fy llythyrau asesu gwelliant a anfonwyd at y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r llythyrau ar gael ar ein gwefan www.wao.gov.uk.
- 7 Byddaf yn cynnal asesiad corfforaethol llawn o'r Cyngor yn hwyrach eleni ac yn adolygu cynnydd y Cyngor wrth gyflawni fy nghynigion fel rhan o'r gwaith yma.

Adroddiad manwl

Cyflwyniad

- 8 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae **Atodiad 1** yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf, gan ddefnyddio hunanasesiad y Cyngor ei hun.
- 9 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.
- 10 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:
- argymhell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
 - cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
 - gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
 - gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.
- 11 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24, Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

Mae'r Cyngor yn datblygu trefniadau newydd ar gyfer rheoli ei raglen wella, ond mae'r canlyniadau a ddisgwylir yn aneglur, ac mae hyn yn codi pryderon ynghylch gallu'r Cyngor i wella a darparu gwerthusiad clir o effaith ei gamau gweithredu ar ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau

Oherwydd diffyg perchnogaeth strategol a ffocws mae cynnydd y Cyngor o ran cyflawni gwelliannau yn ei feysydd blaenoriaeth yn newidiol

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd gyda'i Raglen Trawsnewid eleni yn sgil creu strwythur uwch reoli newydd ond erys y cynnydd cyffredinol yn newidiol ac yn araf ac mae'r effaith ddisgwyliedig yn aneglur

12 Yn wyneb pwysau ariannol nas gwelwyd eu bath o'r blaen yn sgil y sefyllfa ariannol, sy'n gwaethygu yn sgil cynnydd yn nisgwyliadau dinasyddion, rhoddodd y Cyngor Raglen Trawsnewid ar waith ym mis Medi 2010. Nod y rhaglen oedd galluogi'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau gyda llawer llai o adnoddau drwy geisio gwneud newidiadau yn y ffordd y mae'n gweithio ac edrych am ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau gan sicrhau eu bod mor effeithiol ac effeithlon â phosibl. Cytunwyd ar amcan gwella'r Rhaglen Trawsnewid gan y Cyngor yn 2010 a nodwyd yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* yn 2012, er bod y rhaglen yn gwneud cynnydd, bod cynnydd mewn rhai meysydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl.

- 13 Ar ôl etholiadau llywodraeth leol 2012, mae'r cyngor wedi cytuno ar strwythur rheoli newydd yn seiliedig ar bedwar cyfarwyddwr strategol wedi'u cefnogi gan benaethiaid gwasanaeth a fydd yn uniongyrchol gyfrifol am gyflawni'r trefniadau gweithredol. Pan fyddant wedi'u penodi, y pedwar cyfarwyddwr strategol ynghyd â'r Prif Weithredwr fydd Tim Arweinyddiaeth y Cyngor a bydd yn rhoi trosolwg strategol o wasanaethau'r Cyngor. Y penaethiaid gwasanaeth newydd, sy'n disodli'r cyfarwyddwyr cynorthwyol presennol, a fydd yn gyfrifol am y trefniadau gweithredol. Nid yw'n glir beth fydd effaith y newid hwn gan na ragwelir newid o ran personél, gyda'r swyddi'n cael eu dyrannu i uwch swyddogion presennol.
- 14 Mae elfennau eraill o'r Rhaglen Trawsnewid wedi llithro ond cydnabyddir hyn ac mae'r Cyngor yn ceisio cynyddu'r momentwm.
- 15 Mae'r Cyngor yn rhagweithiol o ran ymgysylltu â sefydliadau cyfagos gan gynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd, gan ddatblygu cyfleoedd i gynyddu cydweithio, yn weithredol ac yn strategol.
- 16 Mae gan y Cyngor nifer o drefniadau cydweithio â chyrff cyfagos, ac mewn cyfnod o gyni ariannol, mae mwy o gymhelliant a sbardun i weithio'n wahanol er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau. Noda *Governance of Ceredigion – Joint Programme of work* '...any collaboration (with neighbouring authorities and with partners) must have a strong business case that shows it will deliver improved services at a lower cost and will not disadvantage the local economy'.

Ni leihaodd y Cyngor ei allyriadau Carbon Deuocsid (CO₂) o'i adeiladau cyhoeddus annomestig ond mae wedi cwblhau cyfran sylweddol o *Gynllun Diogelu'r Arfordir y Borth i Ynyslas*

- 17 Mae'r Cyngor wedi parhau i fuddsoddi mewn cynlluniau lleihau ynni sydd wedi arwain at leihau ei allyriadau CO₂ yn gyffredinol ac at arbedion o ran defnyddio ynni. Fodd bynnag, yn ystod 2011-12, ni leihaodd y Cyngor ei allyriadau CO₂ o'i adeiladau cyhoeddus annomestig, a gwelwyd cynnydd o 1.3 y cant yn yr allyriadau CO₂. Mae modd i *Cynllun Gwella – Perfformiad 2011/2012* fod yn gamarweiniol gan fod y naratif yn y crynodeb yn canolbwyntio ar yr arbedion CO₂ ers llinell sylfaen 2007-08, heb gynnig esboniad ynghylch pam mae wedi methu â chyrraedd ei darged ar gyfer adeiladu annomestig, a heb amlinellu'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd o ganlyniad.
- 18 Mae'r Cyngor wedi diogelu oddeutu 300 o gartrefi a 40 o fusnesau drwy *Gynllun Diogelu'r Arfordir y Borth i Ynyslas*. Nod cam un y cynllun, sy'n werth £13.5 miliwn ac a gwblhawyd yn 2012, yw diogelu cartrefi a busnesau rhag llifogydd sy'n digwydd unwaith mewn 100 mlynedd.

Mae'r Cyngor wedi parhau i ganolbwyntio'n gryf ar leihau gwastraff, ac mae hyn wedi'i alluogi i gyrraedd targedau cenedlaethol

- 19 Gwna'r Cyngor gynnydd da tuag at gyrraedd ei dargedau gwastraff cenedlaethol o ran lleihau gwastraff. Gwnaethpwyd gwelliannau mewn camau bach, ond fe'u gwnaethpwyd yn gyson a thros nifer o flynyddoedd. Mae'r Cyngor wedi cyrraedd targed 2012-13 i ailgylchu 52 y cant o'r gwastraff trefol a gesglir ac mae gan y gwasanaeth ymwybyddiaeth gref iawn o dargedau lleihau gwastraff cenedlaethol, a'r goblygiadau yn sgil peidio â'u cyrraedd.
- 20 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion yn hollbwysig os am barhau i wella cyfraddau ailgylchu. Mae'r gwasanaeth wedi parhau gyda rhaglen codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd i wella ei berfformiad ailgylchu gwastraff domestig drwy gyflwyno gwasanaethau ailgylchu ar garreg y drws a gwastraff bwyd yn llwyddiannus.

Mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau i'w wasanaeth addysg

- 21 Mae ystod o fentrau wedi cael eu cyflwyno er mwyn cefnogi sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae hyn wedi arwain at well ganlyniadau ymysg grwpiau o ddisgyblion sydd wedi eu targedu. Mae'r Cyngor yn gweithio er mwyn sefydlu'r perfformiad yma ymhellach, drwy gyflwyno tîm rhifedd i ddarparu cefnogaeth wedi ei dargedu i ysgolion sydd yn tangyflawni.

- 22 Mae canolfannau Hafan ac Encil wedi eu lleoli ym mhob un o'r saith ysgol uwchradd ac yn cynnig cefnogaeth sydd wedi ei deilwra er mwyn cwrdd ag anghenion disgyblion. O ganlyniad, mae lefelau presenoldeb wedi gwella ym mhob ysgol, mae triwantiaeth wedi lleihau, mae gwaharddiadau wedi lleihau, mae ymddygiad wedi gwella ac mae disgyblion yn ymgysylltu'n well â'u haddysg. Am yr ail flwyddyn o'r bron, ni fu unrhyw waharddiadau parhaol, ac ni fu unrhyw waharddiadau tymor penodol am hirach na phum niwrnod.
- 23 Ymysg y mentrau eraill a gyflwynwyd mae 'Tîm o Amgylch y Teulu'. Mae'r Cyngor wedi penodi pedwar cydgysylltydd, sy'n defnyddio ystod o wybodaeth, i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i deuluoedd. Mae hyn yn helpu i atal eu problemau rhag datblygu'n sefyllfaoedd mwy cymhleth y mae angen rhagor o ymyriadau drutach er mwyn mynd i'r afael â hwy. Gweithia'r cydgysylltwyr yn ysgolion uwchradd y Cyngor ac mae eu cylch gwaith hefyd yn cynnwys cyfrannu tuag at gyflawni amcanion addysgol allweddol fel gwella ymddygiad mewn ysgolion, lleihau gwaharddiadau a gwella presenoldeb.
- 24 Mae'r Cyngor wedi bod yn cynnal rhaglen rhesymoli ysgolion er mwyn mynd i'r afael â'r nifer cynyddol o leoedd gwag. Ym mis Ionawr 2011 roedd gan y Cyngor 25 y cant o leoedd gwag; llwyddodd i gael gwared ar 191 o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd yn ystod 2010-11, a 147 yn 2011-12, ond mae cryn orchwyl yn wynebu'r Cyngor o hyd os yw am gyrraedd ei darged o 15 y cant o leoedd gwag yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Mae cymorth y Cyngor i bobl ddiamddiffyn wedi gwella a cheir rhai enghreifftiau o arferion da, ond gallai nifer o risgiau allweddol lesteirio cynnydd

- 25 Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) *Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2011/12* ym mis Hydref 2012. Disgrifia'r adroddiad hwn welliannau mewn rhai meysydd. Mae'r adroddiad hwn ar wefan www.cssiw.org.uk. Yn gryno, canfu AGGCC:
- fod y cyngor wedi darparu tystiolaeth sy'n dangos ei fod yn parhau i ddatblygu ei wasanaeth;
 - bod y gwasanaethau plant yn parhau i wneud cynnydd a bod perfformiad wedi gwella mewn rhai meysydd;
 - bod recriwtio staff sy'n meddu ar ddigon o brofiad yn parhau i fod yn her;
 - bod y Cyngor yn adolygu'r ystod o wasanaethau cymorth sydd ar gael i blant sy'n rhoi cyfle i ddatblygu gwasanaethau sydd wedi'u hintegreiddio'n well.
- 26 Mae AGGCC wedi nodi'r arferion da canlynol hefyd:
- Y cymorth a gynigir ac a ddarperir i ofalwyr pobl hyn â'r rhai sydd ag anabledd corfforol. Mae'r swyddog datblygu gofalwyr yn rhoi cymorth effeithiol a chyfarwyddyd pendant.

- Mae'r bobl sy'n derbyn gwasanaethau gan y cyngor yn derbyn cymorth gan nifer fawr o staff sy'n gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.
- Mae'r fframwaith ardal amddiffyn oedolion wedi bod yn allweddol o ran sbarduno gwelliant yn y maes diogelu.

27 Nododd AGGCC y risgiau posibl canlynol hefyd:

- Gallai'r gwaith ar gydweithredu greu ansicrwydd gan arwain at oedi wrth gyflawni camau moderneiddio Gallai hefyd danseilio'r gwaith da a wnaed ar y cyd, a'r cynnydd a gyflawnwyd gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda, a chydag awdurdodau eraill cyfagos.
- Mae dangosyddion perfformiad yn nodi defnydd helaeth o staff heb gymwysterau, yn enwedig yn y gwasanaethau i blant.

28 Yn ogystal cynhaliodd AGGCC arolygiad o drefniadau mynediad i wasanaethau plant ym mis Tachwedd 2011. Canfu'r arolygiad ymrwymiad clir i wella a moderneiddio ei drefniadau mynediad. Gwnaethpwyd cryn dipyn o waith ond llesteiriwyd y cynnydd gan y ffaith nad oedd modd recriwtio gweithwyr cymdeithasol a oedd yn meddu ar gymwysterau a phrofiad priodol. Gellir gweld copi o'r adroddiad arolygu llawn yn www.cssiw.org.uk.

Cynghorwyr sy'n llywio dull hunanwerthuso a rheoli perfformiad y Cyngor, ond ni chaiff hyn ei adlewyrchu yn ei hunanasesiad blynyddol hyd yma

- 29 Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cofnodi gwelliannau statudol yn effeithiol. Fodd bynnag, mae angen iddo sicrhau ei fod yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru yn fanylach.
- 30 Mae gan y Cyngor lawer mwy i'w wneud o ran datblygu ei drefniadau monitro ac adrodd ar welliannau. Nid yw'r Cyngor yn llwyddiannus yn ei ymdrechion i asesu'r effaith a gaiff ei weithgaredd ar fywydau dinasyddion neu p'un a yw'n gwneud cynnydd tuag at y canlyniadau a fwriadwyd. Cyflwynir ystod amrywiol o wybodaeth yn y naratif sy'n crynhoi pob amcan gwella yn y *Cynllun Gwella – Perfformiad 2011/12*, sy'n disgrifio'r hyn y mae'r Cyngor yn anelu at ei gyflawni, y gweithgareddau cysylltiedig, a mesurau perfformiad dethol. Ac eithrio o bosibl yr amcan *Gwella'r cyfleoedd dysgu i'n holl ddysgwyr*, nid yw'r naratif yn cynnwys gwerthusiad cyffredinol o gynnydd y Cyngor tuag at gyflawni ei nodau. Gadewir i'r darlennydd ffurfio ei farn ei hun ynghylch p'un a yw'r amcanion gwella'n cael eu cyflawni.
- 31 Yn y tablau mesurau perfformiad a ddefnyddir i ddangos *Pa wahaniaeth wnaethom ni*, yn aml mae data a thargedau perfformiad llinell sylfaen yn eisiau, sy'n ei gwneud yn anodd asesu a yw'r perfformiad a ddisgrifir gan y Cyngor yn dda neu'n wael, neu'n unol â'r disgwyliadau. Er enghraifft, mewn perthynas â'r amcan *gwella darparu amgylchedd diogel o ansawdd uchel*, noda'r *Cynllun Gwella – Perfformiad 2011/2012* fod y Cyngor wedi cyflawni gostyngiad o 61 tonnell o CO₂ drwy ei raglen effeithlonrwydd fflyd cerbydau. Fodd bynnag, ni ddarperir unrhyw ddata arall mewn perthynas â pherfformiad mewn blynyddoedd blaenorol neu mewn perthynas â'r targedau a bennir, sy'n golygu na all y darlennydd asesu a yw hyn yn adlewyrchiad o berfformiad da ynteu perfformiad gwael.
- 32 Mae'r adroddiad yn ddryslyd mewn manau. Er enghraifft, dywed y Cyngor yn y *Cynllun Gwella – Perfformiad 2011/2012* ei fod wedi cynyddu nifer yr asesiadau gofalgwyr a gynigir 27 y cant ac mae'n cynnwys graff sy'n dangos mai'r Cyngor sydd wedi cyflawni'r gwelliant mwyaf yng Nghymru mewn perthynas â'r mesur hwn. Fodd bynnag mae'r crynodeb, sy'n dyfynnu'r un ffigur, yn nodi bod y Cyngor wedi methu â chyrhaedd ei darged mewn perthynas â'r mesur hwn, gan nodi bod perfformiad y Cyngor yn y 17eg safle yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r naratif yn ymwneud â'i amcan gwella *Gwella'r ffyrdd rydym yn diogelu pobl sy'n agored i niwed* yn canolbwyntio mwy ar yr agenda gofal cymdeithasol ehangach nag ar asesu perfformiad yn erbyn yr amcan gwella. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i ddinasyddion asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd.
- 33 Lle y pennwyd targedau, nid ydynt yn gyson o ran pa mor heriol ydynt ac ni chânt eu hegluro er mwyn rhoi'r perfformiad yn ei gyd-destun. Er enghraifft, pennwyd targed 2011-12 ar gyfer cynnal adolygiadau amserol o gynlluniau plant ar lefel is na pherfformiad gwirioneddol y Cyngor y flwyddyn flaenorol, ac ar lefel is na Chyfartaledd Cymru, heb roi eglurhad dros hynny.

34 Ar ôl etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2012 mae'r weinyddiaeth newydd wedi amlinellu nifer o newidiadau o ran trefniadau rheoli perfformiad ac mae'n rhoi'r newidiadau hyn ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys dyrannu cyfrifoldebau dros drawsnewid a rheoli perfformiad i'r Dirprwy Arweinydd. O ganlyniad mae'r Dirprwy Arweinydd yn sbarduno dull mwy cadarn a thrylwyr o asesu perfformiad adrannau.

35 Mae'r cyfarfodydd perfformiad 'gwerthuso busnes' diwygiedig, lle mae cyfarwyddwyr yn adrodd ar gynnydd o ran cyflawni eu cynlluniau busnes, yn dechrau dwyn ffrwyth. Bellach, caiff y prif faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd hyn eu hadrodd i'r cabinet ac mae pwyllgorau craffu'r Cyngor hefyd yn dechrau ymwneud â'r broses drwy herio a monitro'r materion hyn.

36 Noda AGGCC fod llythyr Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion yn rhoi cyfrif cywir o berfformiad y Cyngor ac yn adlewyrchu'n glir y dystiolaeth a ddarparwyd i AGGCC, yn arbennig mewn perthynas â thrawsnewid gwasanaethau pobl hyn. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Cyngor i ategu'r gwerthusiad hwn wedi bod yn glir.

37 Ym mis Medi 2012, rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar gyfrifon 2011-12 y Cyngor. Yn ogystal cyhoeddodd yr archwilydd penodedig ei *Lythyr Archwilio Blynyddol*; ceir rhagor o fanylion yn [Atodiad 3](#).

38 Ar ôl arolygu pryderon a godwyd gan is-gontractwr mewn perthynas â rheolaeth y Cyngor o gontract gwaith yn Ysgol Llambed, nododd adroddiad yr Archwilydd Penodedig wrth Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ym mis Ionawr 2013:

- nad oedd y Cyngor wedi cydymffurfio'n llwyr ag anghenion rheolau ei weithdrefnau contractio wrth ddewis pwy a gafodd wahoddiad i dendro;
- nad oedd agweddau ar y contract wedi eu rheoli'n dda a gellir gwneud gwelliannau.

Mae'r Cyngor wedi adrodd ei fod wedi adolygu ei weithdrefnau ac yn annog rhai newidiadau yng ngolau'r sylwadau hyn.

Mae angen i'r Cyngor gryfhau ei gynlluniau gwella a'i drefniadau i gefnogi gwelliannau os ydynt am alluogi'r Cyngor i sicrhau gwelliannau parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod

Nid yw cynlluniau'r Cyngor yn mynegi blaenoriaethau'r Cyngor a'u heffaith ar ddinasyddion yn ddigon clir

- 39 Mae'r weinyddiaeth newydd wedi amlinellu ei blaenoriaethau gwleidyddol ac wedi cytuno arnynt mewn dogfen o'r enw *Llywodraethu Ceredigion – Cyd-raglen Waith*. Mae'r Cyngor wedi adolygu'r amcanion a'r camau gweithredu a amlinellir yn y *Cynllun Gwella – Amcanion 2012/13* ac wedi sefydlu eu bod yn adlewyrchu'r blaenoriaethau gwleidyddol newydd hynny yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r *Cynllun Gwella - Amcanion 2012/2013* presennol yn ddigon eglur ynghylch ei flaenoriaethau strategol, yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud yn wahanol, a'r canlyniadau mesuradwy y gall dinasyddion eu disgwyl.
- 40 Fel rhan o'i Raglen Trawsnewid, mae'r Cyngor wedi llunio datganiad lefel uchel o'i weledigaeth sy'n cael ei ategu gan saith amcan strategol. Mae'r rhain bron yn union debyg i chwe amcan gwella'r Cyngor a ddisgrifir yn y *Cynllun Gwella – Amcanion 2012-2013*. Mae posibilrwydd y gall y tebygrwydd rhwng yr amcanion strategol eu hunain, a rhwng yr amcanion strategol a'r amcanion gwella achosi dryswch. Er enghraifft, amcan strategol cyntaf y cyngor yw *Ceredigion yn perfformio'n dda wrth ddarparu gwasanaethau sy'n ateb anghenion ein dinasyddion*, sy'n debyg i'w ail amcan strategol *Cyngor Ceredigion yn sefydlu sy'n addas i'r pwrpas ac yn darparu gwasanaethau gwell i'w ddinasyddion*. Ond yr amcan gwella unigol sy'n cwmpasu'r maes hwn yw *Trawsnewid ein gwasanaethau i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon i'r dinasyddion*. Mae gorgyffwrdd tebyg rhwng yr amcan strategol *Darpariaeth addysg a hyfforddiant wedi'i theilwra i ateb anghenion y rhai sydd am ddilyn gyrfa yng Ngheredigion* a'r amcan strategol *Cyngor Ceredigion yn sicrhau'r canlyniadau dysgu gorau ar gyfer Ceredigion* a'r amcan gwella *Gwella'r cyfleoedd dysgu i'n holl ddysgwyr*. At ei gilydd, nid yw'n eglur pa gyfres o amcanion y mae'r Cyngor yn ei monitro ac yn targedu ei adnoddau tuag ati, ac mae'r dyblygu yn aneffeithlon ac yn ddiangen.
- 41 Yn y *Cynllun Gwella – Amcanion 2012/2013* disgrifia'r cyngor yn fanwl ystod gynhwysfawr o weithgaredd sy'n seiliedig ar wasanaeth a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion gwella. Disgrifia hefyd sut y gellir mesur llwyddiant drwy dargedau a dangosyddion perfformiad ac, yn fwy ansoddol, drwy arolygon. Fodd bynnag, er mwyn dilyn canllawiau statudol yn fanylach, dylai cynlluniau'r dyfodol gynnwys datganiad cyffredinol yn disgrifio'r trefniadau y dylai'r Cyngor eu rhoi ar waith i gyflawni ei ddyletswydd statudol i sicrhau gwelliannau.
- 42 Mae'r Cyngor wedi cynnal ystod o weithgaredd ymgynghori gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid gan gynnwys ymgysylltu â'i banel dinasyddion. Amlinella'r *Cynllun Gwella – Amcanion 2012-2013* sut y mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi helpu i lywio'r camau sy'n sail i'r amcanion gwella. Fodd bynnag, gallai'r *Cynllun Gwella – Amcanion 2012/2013* fod yn fwy penodol o ran 'cyfeirio' dinasyddion a rhanddeiliaid at sut i ymgysylltu â'r Cyngor a mynegi eu barn ar y broses o bennu amcanion

gwella. Bwriada'r Cyngor gynnal adolygiad o'i weithdrefnau ymgysylltu â'r cyhoedd ar y cyd â phartneriaid y bwrdd gwasanaeth lleol i ymchwilio i'r ffordd orau o'u gwella a sicrhau'r manteision mwyaf posibl.

- 43 Mae'n hawdd dod o hyd i'r *Cynllun Gwella – Amcanion 2012/2013* ar wefan y Cyngor, ac fe'i cynhyrchwyd yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan fodloni gofynion *Cynllun Iaith Gymraeg* y Cyngor.
- 44 Mae trefniadau asesu risg y Cyngor yn destun pryder; er enghraifft ceir rhywfaint o amwysedd ynghylch a oes cofrestr risg gyfoes gan wasanaethau, prin iawn yw'r hyfforddiant a gafwyd ar reoli risg, nid yw'r cyfrifoldeb dros reoli risgiau penodol yn eglur ac mae ansicrwydd ynghylch sut i gyfeirio risgiau i lefel uwch pan fo angen.

Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd amrywiol o ran mynd i'r afael â'r cynigion i wella a nodwyd yn ein hasesiadau blaenorol

- 45 Mae'r Cyngor wedi gweithredu ar ein hargymhelliad statudol sydd yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* (Ionawr 2012) y dylai'r Cyngor gyhoeddi cymhariaeth o'i berfformiad gydag awdurdodau gwella a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r *Cynllun Gwella – Perfformiad 2011/2012*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2012, yn cynnwys cymhariaeth o berfformiad ar lefel Cymru gyfan ac mae hefyd yn rhoi enghreifftiau o gymhariaethau gyda chynghorau eraill yng Nghymru.

46 Mae'r Cyngor wedi datblygu portffolios cabinet newydd ac wedi lleihau nifer y pwyllgorau craffu. Er ei bod yn rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd y newidiadau hyn, mae ganddynt y potensial i gefnogi gwelliannau.

47 Mae cynlluniau gweithredu wedi'u datblygu i fynd i'r afael â'n cynigion a oedd yn ymwneud â thechnoleg a rheoli gwybodaeth. Caiff cynnydd ei fonitro gan y cabinet a byddwn yn mynd ar drywydd yr adolygiadau hyn yn y flwyddyn sydd i ddod ac yn adrodd ar gynnydd yn ein hadroddiad gwella blynyddol nesaf.

48 Nid yw'r Cyngor wedi gwneud cymaint o gynnydd o ran mynd i'r afael â'n pryderon yn ymwneud â'i flaenoriaethau strategol, y Rhaglen Trawsnewid, hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau.

Mae gan y Cyngor gynlluniau ariannol cadarn sy'n gysylltiedig â'i amcanion strategol a'i amcanion gwella

- 49 Yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, mae'r Cyngor yn rhagweld, ar 31 Rhagfyr 2012, y bydd ganddo orwariant o £0.9 miliwn am y flwyddyn. Mae pwysau o fewn y Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol wedi arwain at orwariant o £1.4 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir y prif orwariant yn yr adrannau Teuluoedd a Phlant (£750,000), Gwasanaethau Iechyd Meddwl (£325,000) ac Anabledau Dysgu – Gwasanaethau Eraill (£330,000).

- 50 Mae'r Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai yn rhagweld gorwariant o £150,000 am y flwyddyn lawn oherwydd diffyg yn yr incwm rheoli adeiladau, ceisiadau cynllunio a'r asiantaeth grantiau tai. Caiff y gorwariant hwn ei wrthbwysu'n rhannol gan danwariant o £190,000 a ragwelir yn yr adran Priffyrdd, Eiddo a Gwaith a thanwariant o £150,000 yn yr Uned Trafnidiaeth Teithwyr Corfforaethol.
- 51 Er bod cyfraddau llog ar gyfer blaendaliadau'r Cyngor yn parhau i fod yn isel, a bod lefel y cronfeydd wedi bod yn uchel, defnyddiwyd benthyca mewnol i'r eithaf i greu arbedion dros dro o oddeutu £300,000 ar gyfer 2012-13.
- 52 Ar ddiwedd 2011-12, roedd gan y Cyngor rhyw £33 miliwn o gronfeydd defnyddiadwy, £2 filiwn yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Mae balans Cronfa Gyffredinol y Cyngor wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf a bydd hon yn ariannu'r gorwariant o £0.9 miliwn a ragwelir yn 2012-13. Adlewyrcha'r gyllideb ar gyfer 2013-14 y pwysau parhaus ar Wasanaethau Cymdeithasol gyda chynnydd o £2 filiwn yn nyraniad y gyllideb.
- 53 Mae'r Cyngor yn aros am gymeradwyaeth derfynol gan Lywodraeth Cymru i gau ei Gyfrif Refeniw Tai ar ôl iddo drosglwyddo'i stoc rai blynyddoedd yn ôl. Disgwylir cael cymeradwyaeth cyn diwedd y flwyddyn 2012-13.
- 54 Mae'r Cyngor yn disgwyl defnyddio rhai o'i gronfeydd dros y blynyddoedd nesaf i gyflawni ei amcanion strategol a'i amcanion gwella. Mae nifer o gynlluniau cyfalaf yn yr arfaeth, sef y rhaglen *Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif* a'r rhaglen rheoli carbon.
- 55 Mae gan y Cyngor enw da o ran ymgysylltu'n dda ac mae wedi gwneud hynny mewn perthynas â'r gyllideb a blaenoriaethau. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol gyfrannu a gwneud sylwadau.
- 56 Diweddarwyd y *Strategaeth Ariannol Tymor Canol* ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2013. Mae cynllun ariannol y Cyngor yn seiliedig ar ystod o wybodaeth gadarn a phriodol ac mae'n defnyddio ystod ehangach o wybodaeth gan gynnwys ystadegau demograffeg, cyflogaeth, iechyd ac amddifadedd. Mae cynllun cyffredinol y Cyngor yn cael ei gyflawni o fewn y gyllideb at ei gilydd.
- 57 Dylai trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu budd-dal tai sicrhau bod taliadau prydlon a chywir yn cael eu gwneud i'r bobl gywir a bod mynediad cymharol dda i'r gwasanaeth budd-daliadau. Mae'r amseroedd prosesu ar gyfer hawliadau newydd a newidiadau mewn amgylchiadau yn fyrrach na chyfartaledd Cymru. Gwelwyd gwelliant o ran cywirdeb ac mae'r broses rheoli dogfennau'n gweithio'n dda. Caiff nifer fwy na'r cyfartaledd o hawliadau eu penderfynu o fewn 14 diwrnod, mae'r trefniadau gordaliadau'n gweithio'n dda, ac mae gwasanaeth darganfod twyll ac adennill effeithiol ar waith.
- 58 Mae'r Cyngor yn gweithio'n galed i gyflwyno'r System Trosglwyddiadau Awtomataidd i Awdurdod Lleol (ATLAS), a fydd yn trosglwyddo arian yn awtomataidd o'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn uniongyrchol i systemau'r awdurdod lleol.

Arddangosyn 1: Cronfeydd defnyddiadwy'r Cyngor 2012-2015

	Gwirioneddol 31.3.11	Gwirioneddol 31.3.12	Arfaethedig 31.3.13	Arfaethedig 31.3.14	Arfaethedig 31.3.15
Y Gronfa Gyffredinol	£5.5 miliwn	£6.4 miliwn	£5.3 miliwn	£4.8 miliwn	£4.8 miliwn
Cronfa wedi'i chlustnodi ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai	£0.8 miliwn	£0.5 miliwn	£0	£0	£0
Cronfeydd wedi'u clustnodi ar gyfer addysg	£5.8 miliwn	£7.3 miliwn	£10.0 miliwn	£10.3 miliwn	£9.9 miliwn
Cronfeydd wedi'u clustnodi ar gyfer priffyrdd	£1.6 miliwn	£2.4 miliwn	£3.6 miliwn	£3.5 miliwn	£3.4 miliwn
Cronfeydd wedi'u clustnodi ar gyfer cyfalaf corfforaethol	£2.9 miliwn	£5.5 miliwn	£0.6 miliwn	£0.4 miliwn	£0.6 miliwn
Cronfa wedi'i chlustnodi ar gyfer gwerthuso swyddi/ cyflog cyfartal	£9.9 miliwn	£5.6 miliwn	£4.9 miliwn	£3.8 miliwn	£3.3 miliwn
Cronfeydd eraill wedi'u clustnodi	£4.3 miliwn	£5.0 miliwn	£4.3 miliwn	£3.3 miliwn	£2.2 miliwn
Cyfanswm y cronfeydd defnyddiadwy	£30.8 miliwn	£32.7 miliwn	£28.7 miliwn	£26.1 miliwn	£24.2 miliwn

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion

Er bod y Cyngor wedi cael ei ganmol am ei waith yn cefnogi'r Gymraeg yn ei gartrefi gofal, at ei gilydd nid yw wedi llwyddo i gyrraedd mwyafrif y targedau a bennodd yn ei *Gynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg*

59 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

60 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

61 Mae'r Cyngor yn cymryd camau i roi sylw dyledus i'r Gymraeg yn y broses o asesu effaith polisïau. Gwelwyd datblygu ar rai o'r themâu sy'n cael eu hadnabod yn y *Strategaeth Gymunedol* mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar y Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi datblygu teclyn ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â gofynion ei gontractau cartrefi gofal a chartrefi nyrsio, ac wedi cynnig cefnogaeth i staff y cartrefi i gwrdd â'r gofynion hynny. Canmolwyd y Cyngor y llynedd am ddiweddarau contractau cartrefi gofal a nodwyd bod angen estyn y gwaith i feysydd gwasanaeth eraill. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor bellach. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod wedi methu â chyflawni mwyafrif y targedau yn ei gynllun gweithredu ond ni chynigir eglurhad am hyn. Nid yw'r Cyngor wedi ymateb eto i gais y Comisiynydd am wybodaeth bellach ar nifer o agweddau o'i ddarpariaeth. Disgwylir i'r Cyngor roi blaenoriaeth i gyflawni'r targedau yn 2013.

Atodiadau

Atodiad 1

Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr asesiad gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi adroddiadau archwilio ac asesu gan gynnwys unrhyw arolygiadau arbennig (o dan adran 24).

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau

Atodiad 2

Gwybodaeth ddefnyddiol am Geredigion a Chyngor Sir Ceredigion

Y Cyngor

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gwario tua £168 miliwn y flwyddyn (2011-12). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,234 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £26 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2011-12, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Ceredigion oedd £1,132.55 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 3.24 y cant i £1,169.27 y flwyddyn ar gyfer 2012-13. Mae 61.5 y cant o dai Ceredigion yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 42 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 19 Plaid Cymru, 12 Annibynnol, 3 Llais Annibynnol: Clymblaid
- 7 Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- 1 heb fod yn aelod o unrhyw blaid

Prif Weithredwr y Cyngor yw Miss E.M. Bronwen. Caiff ei chefnogi gan:

- Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol: Mr Eifion Evans
- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol: Mr Parry Davies
- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai: Mr Bryan Thomas
- Y Cyfarwyddwr Cyllid: Mr W. Gwyn Jones
- Y Cyfarwyddwr Priffyrdd, Eiddo a Gwaith: Mr Huw T. Morgan

Ar hyn o bryd mae'r trefniadau uwch reoli'n cael eu hadolygu yn sgil penodi cyfarwyddwyr strategol y disgwylir iddynt ddechrau ar eu swyddi erbyn mis Ebrill 2013.

Rhagor o wybodaeth

Aelodau'r Cynulliad dros Geredigion yw:

- Elin Jones, Ceredigion, Plaid Cymru
- Rebecca Evans, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Blaid Lafur
- Simon Thomas, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, Plaid Cymru
- Joyce Watson, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Blaid Lafur
- William Powell, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Yr Aelod Seneddol dros Geredigion yw:

- Mark Williams, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun yn www.ceredigion.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Cyngor Sir Ceredigion, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA. Ffôn: 01545 570881 neu e-bost reception@ceredigion.gov.uk.

Atodiad 3

Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig

Arweinydd y Cyngor
Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

Annwyl Gyngorydd Ellen ap Gwynn

Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau'n ymwneud â chyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio o adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cywir o gyfrifon;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau;
- cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA/LASAAC. Mae'r cod hwn wedi'i seilio ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 27 Medi 2012, cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Cyflwynwyd adroddiad ar y materion allweddol a gododd o'r archwiliad cyfrifon i aelodau o'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad

Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 25 Medi 2012. Roedd y rhai mwyaf arwyddocaol yn ymwneud ag:

- Addasiad y flwyddyn flaenorol - roedd gwahaniaeth heb ei gysoni o £178,000 yng nghyfrifon 2010/11. Yn ddiweddarach cysonodd y Cyngor y balans hwn gan wneud addasiad ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Adolygwyd y papurau gwaith gennym ac roeddem yn fodlon bod y camau priodol wedi cael eu cymryd.
- Balans credydwyd - roedd balans credydwyd o £364,000 o fewn 'endidau ac unigolion eraill' yn ymwneud â'r elw o werthu hen ysgol Penweddig. Gwnaethpwyd argymhelliad yn gofyn i'r Cyngor adolygu'r cyfrif hwn a dod i gasgliad ar sut i ymdrin â'r arian hwn a sut i'w ddyrannu yn ystod 2012-13.
- Cyfraniadau Pensiwn - yn unol ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, roedd y Cyngor yn y broses o gytuno ar setliadau cyflog cyfartal gyda'i gyflogeion. Roedd y cyfrifon yn cynnwys darpariaeth o £4.2m mewn perthynas â'r rhwymedigaeth hon a'r cyfraniadau pensiwn cysylltiedig. Roedd y cyngor cyfreithiol a oedd ar gael i'r Archwilydd Penodedig yn awgrymu ei bod yn briodol cydnabod y rhwymedigaeth hon, fodd bynnag roedd gwahaniaeth barn gyfreithiol ac ansicrwydd ynghylch yr angen i gydnabod darpariaeth mewn perthynas â'r elfen cyfraniadau pensiwn. Daeth yr Archwilydd Penodedig i'r casgliad nad oedd yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau eraill mewn perthynas â'r mater hwn fel rhan o'r archwiliad o gyfrifon 2011/2012. Fodd bynnag, roedd angen i'r Cyngor fod yn effro i unrhyw benderfyniadau gan y llys ar y mater hwn a allai egluro'r sefyllfa gyfreithiol ac effeithio ar yr angen am ddarpariaeth.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaethpwyd ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Aseiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwyf yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u dangos hyd yma neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon ar 27 Medi 2012.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-12 fod yn uwch na'r ffi a gytunwyd ac a nodwyd yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol oherwydd y gwaith o ymdrin â gohebiaeth oddi wrth aelodau'r cyhoedd.

Yn gywir

John Golding
Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

16 Tachwedd 2012

Atodiad 4

Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ceredigion

Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn y *Cynllun Gwella – Amcanion 2012/2013* sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.ceredigion.gov.uk. Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

Amcanion gwella 2012-13
Trawsnewid ein gwasanaethau i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon i'r dinasyddion
Darparu amgylchedd diogel o ansawdd uchel
Gwella'r cyfleoedd dysgu i'n holl ddysgwyr
Gwella'r ffyrdd yr ydym yn diogelu ac yn hyrwyddo annibyniaeth pobl sy'n agored i niwed
Hyrwyddo a datblygu Aberystwyth i fod yn ganolfan ranbarthol a chenedlaethol
Hyrwyddo a datblygu adfywiad economaidd ar draws y Sir

Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad i'w weld yn y ddogfen *Cynllun Gwella – Perfformiad 2011/2012* ac mae ar gael ar wefan y Cyngor yn www.ceredigion.gov.uk ac yn ei brif swyddfa.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk